

Cyngor Cymuned Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
Mehefin 21^{ain} 2012; 7 o'r gloch, Y Ganolfan, Bontnewydd

Presennol :

Cynghorydd Geraint R. Jones, yn cadeirio'r cyfarfod, gyda Cynghorydd Dafydd Iwan, Rhys Pugh, Ifor Williams a'r Cynghorydd Sir, Chris Hughes.

Hefyd, oedd Mrs Gwyneth Thomas a'r clerc, Mr Bryn Hughes yn bresennol.

Oedd Mr Stephen Goodwin a Ms Heulwen Hughes o Antur Waunfawr yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

CYFLWYNIAD GAN ANTUR WAUNFAWR ar y cynllun dillad sydd ganddynt.

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Stephen Goodwin a Ms Heulwen Hughes ar ddechrau'r cyfarfod. Elusen a chwmni cofrestredig trwy warant yw Antur Waunfawr sydd yn rhedeg busnes er mwyn cyflogi pobl lleol, rhai ohonynt sydd gyda gofynion arbennig, ac yn arbenigo yn y maes ail-gylchu. Maent yn cyd-weithio gyda Cyngor Gwynedd mewn ail-gylchu cynnyrch plastig, ac yn codi a dinistrio dogfennau cyfrinachol a chasglu a gwerthu dodrefn ymysg y nifer o wahanol gwasanaethau eraill y maent yn ei gynnig. Mae'r cynllun newydd yn galluogi pobl i roi dillad mewn banciau pwrpasol i Antur Waunfawr sydd yna yn cael ei gasglu, a'i gwerthu. Bwriedir sefydlu busnes gwerthu ar-lein yn ogystal a gwerthu mewn siopau. Ar ddiwedd y cyflwyniad fe ofynnwyd i'r Cyngor Cymuned i amlygu'r gwasnaeth newydd a sut y gallai sefydliadau lleol elwa o'r cynllun.

DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL

Cafwyd datganiad o ddi-ddordeb gan Cynghorydd Dafydd Iwan ar eitem 5.4.

Fe benderfynwyd nad oedd yn gysylltiad a olygai iddo dynnu n'ol rhag ystyried y mater gan fod y Pwyllgor Rheoli yn rhedeg y Ganolfan ar ran y Cyngor Cymuned. Cynghorydd Dafydd Iwan yw Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli.

YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd Erddyn Davies, Cynghorydd Marian Roberts a Cynghorydd Emyr Williams.

CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafwyd y cofnodion yn gywir drwy gynnig gan Cynghorydd Chris Hughes a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Geraint R. Jones. Dim gwrthwynebiad.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cyf-ethol aelodau / derbyn swydd.

Fe gyf-etholwyd yr ymgeiswyr canlynol i'r Cyngor Cymuned, sef :

Gwyneth Thomas. Cynnig gan Cynghorydd Dafydd Iwan, a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Emyr Williams mewn neges e-bost i'r clerc. Dim gwrthwynebiad.

Eddie Hughes. Cynnig gan Cynghorydd Chris Hughes a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Dafydd Iwan. Dim gwrthwynebiad.

Sioned Williams. Cynnig gan Cynghorydd Dafydd Iwan a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Ifor Williams. Dim gwrthwynebiad.

Mi fydd y clerc yn gwahodd y tri ohonynt i arwyddo'r cytundebau yn y cyfarfod nesaf a bwriedir trefnu sesiwn codi ymwybyddiaeth y cod ymarfer mewn cyfarfod ym mis Medi neu Hydref fydd yn cael ei gyflwyno gan Cynghorydd Geraint R. Jones.

Drws yr adeilad wrth ochr Eglwys Llanfaglan : Ymateb gan Mr Alun Wyn Jones, Uwch Swyddog Bwrdeistrefol.

Adroddodd y clerc ei fod wedi derbyn neges gan Mr Alun Wyn Jones yn cytuno i gyfrannu 50% o'r gost i ddarparu a gosod drws newydd, gyda'r dealltwriaeth nad yw'n ymrwymo Cyngor Gwynedd am unrhyw waith cynnal i'r adeilad dan sylw. Fe ofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda Mr Alun Wyn Jones i ddiolch iddo am ei ymateb gadarnhaol a derbyn y cynnig. Mae'r clerc i wneud ymholiadau gyda contractwyr lleol am brisiau.

MATERION ARIANNOL

DATGANIAD Y BANC : Balans hyd at 28 Mai 2012 yn £17549.50

CYFLOG A CHOSTAU CLERC : Mis Mehefin 2012

Cyflog misol	£208.18
Swm cynnal swyddfa	£ 45.00
Costau a threuliau	£ 117.90
CYFANSWM GROS	£371.08
Treth Incwm	£ 41.60 –
Yswiriant Gwladol	£ 0.00 –
CYFANSWM NET	£329.48

PWYLLGOR RHEOLI'R GANOLFAN : Cais gan Trysorydd y Pwyllgor Rheoli i dalu bil am waith a wnaethpwyd ar to'r Ganolfan. Mae gan y Pwyllgor Rheoli gynlluniau i wneud defnydd o'r arian sydd ganddynt yn weddill i gyfrannu at nifer o welliannau y bwriedir ei wneud i'r Ganolfan a bydd talu'r bil yma yn diogelu'r arian sydd ganddynt yn barod i symud ymlaen gyda'r gwelliannau.

Fe benderfynwyd talu'r bil trwy gynnig gan Cyngorydd Chris Hughes a gafodd ei eilio gan Cyngorydd Rhys Pugh. Dim gwrthwynebiad.

GOHEBIAETH

RADIO YSBYTY GWYNEDD : Cyflwyno mantolen ar ôl i'w cais am Gymorth ariannol eleni ei wrthod. Fe benderfynwyd rhoi £25 tuag at Radio Ysbyty Gwynedd. Yn cynnig oedd Cyngorydd Dafydd Iwan gyda Cyngorydd Chris Hughes yn eilio. Dim gwrthwynebiad.

Y FFORDD OSGOI ARFAETHEDIG

Cafwyd trafodaeth ynglyn y mater yma cododd Mr Alun Ffred Jones, AC gyda'r gweinidog mewn sesiwn o'r Cynulliad. Dywedodd y Gweinidog y bydd datganiad maes o law.

DIFFYG SIGNAL FFON SYMUDOL YM MONTNEWYDD

Cafwyd neges e-bost gan Mr Alun Ffred Jones ynglyn cynllun i wella'r signal ffon yn ardaloedd wledig Cymru. Mae'r Cyngorydd Rhys Pugh am edrych ar a lleoli'r rhannau hynny o'r ardal ble mae yna ddiffyg yn y signal a rhoi gwybod i'r clerc.

MATERION ERAILL

EITEM GAN CYNGHORYDD ERDDYN DAVIES : Biniâu sbwriel ger y Penfras Aur Mewn neges e-bost i'r clerc, fe amlygodd Cyngorydd Erddyn Davies problemau gyda sbwriel o gwmpas y Penfras Aur. Dywedodd y Cyngorydd Sir, Chris Hughes, bod y problemau oherwydd anifeiliaid sydd yn gallu cael gafael ar y sbwriel oherwydd nad yw'r fflap ar y bin yn cau'r sbwriel yn gywir pob tro. Pan oedd y Cyngorydd yn berchennog ar y Penfras Aur, yr oedd yn cymryd arno'r cyfrifoldeb i geisio sicrhau fod y sbwriel yn cael ei wthio i'r bin pan yn cau'r siop pob nos. Dywedodd ymhellach fod y Cyngor Sir yn gwneud casgliadau rheolaidd o'r bin ac efallai y dylai'r Cyngor Cymuned cael gair gyda'r perchenogion presennol.

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :

Cofnodion cyfarfod MEHEFIN 2012

EITEM GAN CYNGHORYDD IFOR D. WILLIAMS : Traffig sydd yn teithio i lawr o gyfeiriad Bontnewydd ar yr A487, yn troi i'r chwith ac yn saethu ar draws y ffordd i gyfeiriad Coed Helen. *Fe amlygodd Cynghorydd Ifor Williams fod yna broblemau ar y ffordd yma wedi i ddamwain digwydd yn niweddar ar gyffordd Pont Saint (A487 Llanfaglan/Coed Helen) pan drawodd gar a oedd yn teithio o gyfeiriad Bontnewydd tuag at Coed Helen feic oedd yn teithio i lawr o gyfeiriad Llanfaglan. Mae llawer iawn o bobl wedi bod yn agos iawn i gael damwain yma oherwydd bod ceir yn dod o gyfeiriad Bontnewydd ar yr A487, yn troi i'r chwith ac yn saethu ar draws y ffordd i gyfeiriad Coed Helen, heb aros i edrych a oes yna rhywun yn dod i lawr yr allt o gyfeiriad Llanfaglan. Dywedodd ymhellach bod y mater yma wedi ei godi sawl tro o'r blaen ac nid oes dim wedi ei wneud i ddatrys y perygl hwn. Gofynnwyd i'r clerc ofyn i Cyngor Tref Caernarfon am ei sylwadau a gofyn a oes modd i'r ddau Gyngor dynnu sylw'r Cyngor Sir i'r broblem.*

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Iau, Gorffennaf 19^{eg} am 7 o'r gloch. Bydd Mr HYWEL WILLIAMS, AS yn bresennol ac yn rhoi cyflwyniad ar ddechrau'r cyfarfod.

Os ydych yn dymuno derbyn copi llawn o'r cofnodion, yna cysylltwch a'r clerc, Mr Bryn Hughes drwy e-bost ar hughesbryn@yahoo.co.uk neu ffonio 01286 831861 ar ol 6 o'r gloch. Gallwch dderbyn copi electroneg yn rhad ac am ddim, neu os am gopi papur, yna y bydd cost o £1.00. Dylid wneud cais am gopi papur i : Mr Bryn Hughes, Clerc Cyngor Cymuned Bontnewydd, 11 Bro Wyled, Rhostryfan. Caernarfon. LL54 7LP. Dylid wneud unrhyw sic neu archeb post yn daladwy i : **CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD.**